



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**08456 000 813**

# BETH AM SIARAD BUSNES... PARATOWCH NAWR AR GYFER 2021

Cyngor cyfrinachol un-i-un i symud eich busnes yn ei flaen

*Ydych chi'n barod am yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'ch blaen?*

*Allwn ni helpu eich busnes i sicrhau'r lefelau  
effeithlonrwydd a'r elw gorau posibl?*

*Gwnewch gais am gyngor NAWR!*



[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

## CYNNWYS

Paratoi ar gyfer y dyfodol	1
Pam fod angen i bob busnes fferm a choedwigaeth gael cyngor NAWR!	2
Mynd yn ôl at y pethau sylfaenol	3
Beth ddylai eich cynllun busnes ei gynnwys	4
Beth am siarad busnes	5
Y camau nesaf	5
Cysylltwch â ni	6

## PARATOI AR GYFER Y DYFODOL

Ydych chi'n barod ar gyfer y dyfodol a'r holl newidiadau a ddisgwylir?

Pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch a pha newidiadau ddylech chi eu gwneud i'r ffordd rydych chi'n gweithio ac yn rheoli eich busnes?

- **Brexit** – a fydd yn effeithio arnoch chi a'ch busnes? Efallai nad yw sefyll yn ein hunfan yn opsiwn.
- **Covid 19** – sut fyddwch chi'n ymdopi? Mae bywydau a bywoliaeth pobl yn newid yn ddyddiol.
- **Newidiadau i daliadau fferm** – a fydd eich busnes yn goroesi'r storm? Allwch chi wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd gennych?

Gallwn eich helpu i baratoi ar gyfer yr uchod i gyd a llawer mwy hefyd.



## PAM FOD ANGEN I BOB BUSNES FFERM A CHOEDWIGAETH GAEL CYNGOR **NAWR!**

Mae'r Gwasanaeth Cyngori'n darparu cyngor cyfrinachol, pwrpasol un-i-un ar amrywiaeth eang o bynciau.

😊 Bydd cyngor arbenigol **HEDDIW** yn paratoi eich busnes ar gyfer **YFORY...**

🙄 Peidiwch â cholli allan

➡ Cyn belled â'ch bod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ac yn gymwys, gallwch wneud cais am gyllid

➡ Gall ymgeiswyr unigol wneud cais am gyllid o hyd at 80%

➡ Bydd ceisiadau grŵp (rhwng tri ac wyth unigolyn) yn cael eu hariannu'n llawn

➡ Gallwch wneud cais am gyngor busnes (ariannol/rheoli/blaengynllunio) a/neu gyngor technegol drwy'r Gwasanaeth Cyngori, mewn pecyn/pecynnau wedi'u teilwra i'ch gofynion

## MYND YN ÔL AT Y PETHAU SYLFAENOL

### OES GENNYCH CHI GYNLLUN BUSNES EISOES?

- A yw'r cynllun yn gadarn ac yn addas ar gyfer yr hyn sydd ei angen ar eich busnes wrth symud ymlaen?
- A yw'r cynllun yn ystyried Brexit, Covid 19, Cynllun y Taliad Sylfaenol ac unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau personol?
- Ydi hi'n bryd edrych yn fanwl arno eto, gwneud unrhyw newidiadau a allai wneud eich busnes yn fwy proffidiol, yn fwy cynaliadwy?
- A yw'r cynllun yn amlinellu eich nodau, eich cynllun ar gyfer gwelliannau?

### PA MOR HEN YW EICH CYNLLUN BUSNES?

Os yw eich cynllun yn fwy na thair oed, yna dylech ailedrych arno. Bydd angen i chi sicrhau y gall eich busnes addasu i newid.

Nodwch feysydd sy'n perfformio'n gryf, ystyriwch unrhyw rannau gwan a chymerwch y camau angenrheidiol i sicrhau bod eich busnes yn symud ymlaen. Paratowch ar gyfer y dyfodol **NAWR.**

## BETH DDYLAI EICH CYNLLUN BUSNES EI GYNNWYS

Os nad oes gennych chi gynllun busnes, yna efallai na fyddwch yn gwybod pa gamau y dylech eu cymryd i sicrhau bod eich busnes yn cyflawni ei botensial ar draws pob maes gwaith.

Os nad ydych eisoed yn ymwybodol faint o gyngor y gallwch ei gael drwy'r Gwasanaeth Cyngori, ewch i'n gwefan sy'n cynnwys yr holl fanylion. Yn fyr...

### MAE CYNGOR BUSNES YN CYNNWYS:

- Adolygiadau busnes – cyngor ar ble i ganolbwyntio ymdrech, cynyddu effeithlonrwydd a gwneud y mwyaf o elw
- Tystiolaeth y gallai fod ei hangen amoch ar gyfer banciau, landlordiaid, tendrau ac ati
- Cynllunio ariannol/gwybodaeth y gallwch ei rhannu gyda'ch banc, cyfrifydd neu gyfreithiwr
- Mentrau arallgyfeirio a'r cyfuniad gorau posibl o ran dulliau marchnata (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol)
- Cynllunio olyniaeth

### MAE CYNGOR TECHNEGOL YN CYNNWYS:

- Dadansoddiad o bridd a phorthiant â chymhorthdal
- Canllawiau ar holl dda byw'r fferm, gan gynnwys maeth a pherfformiad
- Ffyrdd o wella bioamrywiaeth – rhedeg fferm gynhyrchiol gan ddiogelu'r cynefin yr un pryd
- Canllawiau ar ffermio'n 'wyrddach' - lleihau eich ôl troed carbon, yn aml heb fawr ddim costau, os o gwbl

I gael rhestr fanylach o'r categorïau cyngor sydd ar gael, ewch i [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

## BETH AM SIARAD BUSNES

Mae ein diwydiant yn wynebu cyfnod o ansicrwydd a newid na welwyd ei debyg o'r blaen. Yng Nghymru, mae cymorth wrth law drwy raglen Cyswllt Ffermio a'n hamrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau cymorth.

Bydd deall sefyllfa eich busnes **HEDDIW** yn eich helpu i gynllunio ar gyfer **YFORY**.

Penderfynwch wneud cais am y Gwasanaeth Cyngori **NAWR!**

### CAMAU NESAF...

- Ewch i'n gwefan i bori drwy'r rhestr o gwmnïau ymgynghori a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Cyngori a'r categorïau cyngor sydd ar gael.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ac yn gymwys – gallwch wneud hyn drwy ffonio eich swyddog datblygu lleol neu ffonio Canolfan Gwasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.
- Penderfynwch wneud cais!

Bydd eich swyddog datblygu lleol yn eich cefnogi ar unrhyw gam o'r broses ymgeisio ar-lein, naill ai cyn i chi wneud cais neu os oes angen help amoch ar unrhyw adeg.

Mae proses ymgeisio'r Gwasanaeth Cyngori yn syml ac yn gyflym. Mae'r holl wybodaeth a roddwch i'ch cynghorydd a/neu swyddog datblygu lleol yn gwbl gyfrinachol.



# AM BETH YDYCH CHI'N AROS?

Os ydych chi'n dal heb benderfynu a ydych am wneud cais ai peidio am gymorth â chymhorthdal drwy'r Gwasanaeth Cyngori, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol i gael sgwrs anffurfiol.

Mae manylion cyswllt ar gyfer y swyddogion datblygu, yn ogystal ag arweiniad llawn ynglŷn â'r Gwasanaeth Cyngori ar gael ar ein gwefan.

➡ Gwefan: [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

➡ Ffôn: Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813

➡ E-bost: [cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk](mailto:cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk)

